# Polisi Amrywiaeth Aelodaeth y Cyngor

## Rheoli Fersiynau

| Rhif y Fersiwn | Noddwr ym Mwrdd Gweithredol y Brifysgol | Corff/Swyddog Cymeradwyo | Dyddiad cymeradwyo |
|---|---|---|---|
| 1 | Dr Paula Sanderson, Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol | Y Cyngor | 26 Tachwedd 2024 |

## Diben a Chwmpas

1. Diben y polisi hwn yw:
    a. gosod ymrwymiad y Cyngor i sicrhau amrywiaeth yr aelodau a sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni; ac wrth wneud hynny:
    b. galluogi cydymffurfio â gofynion Telerau ac Amodau Cyllid CCAUC.

2. Mae Telerau ac Amodau Cyllid CCAUC yn nodi'r canlynol:

    *105. Rhaid cynnwys y wybodaeth ganlynol yn natganiadau ariannol archwiliedig y sefydliad ac unrhyw adroddiadau cysylltiedig:*

    *c. Disgrifiad o bolisi'r corff llywodraethu ar amrywiaeth ac aelodaeth, gan gynnwys rhywedd; unrhyw amcanion mesuradwy sydd wedi'u gosod ar gyfer gweithredu'r polisi; a chynnydd o ran cyflawni'r amcanion hyn.*

## Polisi

3. Mae corff llywodraethu amrywiol a chynhwysol sy'n cynnwys ystod o bobl, safbwyntiau, profiadau a sgiliau yn hanfodol i herio a goruchwylio materion y Brifysgol.

4. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gael aelodau aelodaeth amrywiol a chynhwysol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol.

5. Bydd data amrywiaeth yn cael ei gasglu bob blwyddyn ar gyfer pob aelod o'r Cyngor yn unol â gofynion dychwelyd monitro blynyddol HESA ac i lywio'r adolygiad blynyddol o amrywiaeth y Cyngor.

6. Bydd data'n cael eu casglu a'u feincnodi yn erbyn data amrywiaeth o ran staff a myfyrwyr, ac yn erbyn data'r sector ar amrywiaeth o ran byrddau (a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan Advance HE).

7. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu yn cynnal adolygiad blynyddol o amrywiaeth aelodau'r Cyngor ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor ar unrhyw gamau sydd eu hangen i wella amrywiaeth aelodau ac i flaenoriaethu recriwtio ar gyfer y dyfodol. Bydd adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu yn unol ag egwyddorion Diogelu Data (h.y., bydd yr holl ddata'n ddi-enw ac ni fydd data crai yn cael eu cynnig yn llai na 5).

## Rolau a Chyfrifoldebau

8. Ysgrifennydd y Brifysgol yw Noddwr Bwrdd Gweithredol y Brifysgol ar gyfer y polisi hwn ac mae'n gyfrifol am gymeradwyo'r angen i ddatblygu neu ddiwygio'r polisi hwn yn sylweddol, am gyflwyno'r drafft terfynol i'r corff cymeradwyo ac am sicrhau bod y polisi hwn yn cydymffurfio ag ef, ac yn cael ei fonitro a'i adolygu yn unol â fframwaith polisi'r Brifysgol.

9. Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn gyfrifol am gasglu, coladu ac adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu a'r Cyngor ar ddata amrywiaeth yr aelodau, ac adolygu cydymffurfiaeth a pha mor gyfredol yw'r polisi bob blwyddyn.

10. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu yn gyfrifol am gadw dan adolygiad cyfansoddiad aelodaeth y Cyngor, gan gynnwys ei broffil yn erbyn y matrics sgiliau y cytunwyd arno a sut mae'n sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb o ran yr aelodau.

## Monitro ac Adolygu

11. Bydd adolygiad blynyddol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi hwn yn cael ei gynnal yn rhan o'r gydymffurfiaeth â thelerau ac amodau cyllid CCAUC blynyddol gan y Tîm Llywodraethu Corfforaethol.

12. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol.

## Polisïau a Gweithdrefnau Cysylltiedig

13. Mae'r polisi hwn wedi cael ei ddrafftio yn unol â Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol (SEP). Bydd unrhyw dargedau neu amcanion penodol a sefydlwyd o ganlyniad i ddadansoddi'r data ar amrywiaeth yn cael eu cynnwys yng nghynllun gweithredu SEP.

## Gwybodaeth Rheoli Fersiynau Polisi

| | |
|---|---|
| Enw'r Ddogfen | Polisi Amrywiaeth Aelodaeth y Cyngor |
| Noddwr y Polisi ym Mwrdd Gweithredol y Brifysgol | Y Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol |
| Perchennog y Polisi | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol |
| Awdur(on) y Polisi | Sian Marshall, Cynghorydd Llywodraethu, Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol |
| Rhif y Fersiwn | 1 |
| Dyddiad Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg | 2 Medi 2024 |
| Dyddiad Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd | 5 Medi 2024 |
| Dyddiad Cymeradwyo | 26 Tachwedd 2024 |
| Cymeradwywyd gan | Y Cyngor |
| Dyddiad Gweithredu | 01 Rhagfyr 2024 |
| Dyddiad yr Adolygiad Nesaf | Tachwedd 2025 |

**Ar gyfer polisïau wedi'u diweddaru, rhaid diweddaru unrhyw beth sydd wedi newid yn y wybodaeth uchod a rhaid ychwanegu'r wybodaeth newydd fel a ganlyn.**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf | *Diwrnod/mis/blwyddyn* |

*Cofnod o Newidiadau*

| Fersiwn wedi'i diwygio a dyddiad yr adolygiad | Adolygydd/adolygwyr | Disgrifiad o'r newid | Fersiwn a grëwyd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |